

## **Eich sylwadau, eich newyddion:**

Byddai'n wych gallu gwneud y cylchlythyr yn gynnyrch cymunedol, ond mae arnom ni angen eich help chi er mwyn gwneud hynny!

Allwch chi ein helpu ni gyda chynnwys? Gall fod yn unrhyw beth, newyddion criw neu unigolion, lluniau, cerddi, neu rysâit yr hoffech ei rhannu, unrhyw beth!

Cysylltwch â Michelle Richards yn y pafiliwn drwy -

**01690 750490** neu **mentersiabod@gmail.com**

### **Doli yn ei flodau –**

Mae angen gwirfoddolwyr ar gyfer 'Doli yn ei flodau'

Mae angen gwirfoddolwyr ar gyfer 'Dolwyddelan yn ei flodau' – beth am ein helpu ni cynnal y blodau a'r glesni o gwmpas yr orsaf, y gofeb ryfel, cilfach barcio Pont Arenig. Dewch am awr neu lawer, mi fyddwn ni wrth ein boddau â'ch cymorth.

Mae hon yn ffordd wych o roi i'r gymuned, o ddysgu rhyw faint yn fwy am blanhigion ac mae hefyd yn ffordd o wneud ymarfer corff heb sylweddoli!

Dydyn ni ddim yn canolbwyntio ar gyfarfodydd dan do, ond mae gennym ni restr galw i i'w ddefnyddio pan mae gwaith i'w wneud. Rydym ni'n ceisio cadw'r gwaith i gyfnodau byrion o tua awr.

Mae Dolwyddelan yn ei flodau wedi ymfalchïo yn y pentref ers blynyddoedd bellach, ac mae llawer o wobrau i dystio hynny. Rwan, mae ar y pwyllgor angen mwy o help llaw i ddal ati i wneud y gwaith da!

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Liz Roberts – 01690 750246